



The **United Reformed Church**
National Synod of Wales

Yr **Eglwys Ddiwygiedig Unedig**
Synod Cenedlaethol Cymru

Polisi Iaith Gymraeg
Welsh Language Policy

<h2>1 Cyflwyniad</h2>	<h2>1 Introduction</h2>
<p>Rydym yn cydnabod fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Rydym yn credu ei bod yn arfer dda i gynnig gwasanaethau yn newis iaith ein haelodau a'r sawl yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym hefyd yn credu ei bod hi'n arfer dda i ddangos parch tuag at ein gweithlu i annog a hwyluso eu dewis iaith yn y gweithle.</p>	<p>We acknowledge the fact that under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 the Welsh language has official status, and should be treated no less favourably than the English language.</p> <p>We believe that it is good practice to provide services in the language of choice of our members and those whom we serve.</p> <p>We also believe that it shows respect to our workforce to encourage and facilitate the use of their chosen language in the workplace.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaol tuag at yr uchelgais hwn. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn datgan ein hymrwymadau presennol wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac hefyd, lle'n briodol, yn gosod targedau i ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg.</p>	<p>We will ensure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Welsh Language Policy sets out our current commitments in relation to using Welsh and also, where appropriate, sets targets to help us develop our use of Welsh.</p>
<p>Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymadau yn y polisi hwn mewn ffordd resymol - maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sydd wedi eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac hefyd maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yr ydym yn medru eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.</p>	<p>The scope of our commitments in this policy should be interpreted reasonably - they are limited to activities and services in Wales or which are delivered to people living in Wales, and also limited to activities and services which we are able to control or influence.</p>
<p>Cyfeiriwch unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at:</p>	<p>Please direct any comments or complaints about this policy to:</p>

<p>Clerc y Synod Eglwys Ddiwygiedig Unedig Synod Cenedlaethol Cymru Minster Road, Y Rhath, Caerdydd CF23 5AS Ffôn: 029 2019 5728 E-bost: adrian.bulley.urcwailes@urc.org.uk</p>	<p>The Synod Clerk The United Reformed Church National Synod of Wales Minster Road, Roath, Cardiff CF23 5AS Phone: 029 2019 5728 E-mail: adrian.bulley.urcwailes@urc.org.uk</p>
<p>Dyddiad y polisi hwn: 15/01/2020</p>	<p>This policy is dated: 15/01/2020</p>
<p>1 Delwedd Gyhoeddus</p>	<p>2 Public Image</p>
<p>2.1 Arwyddion parhaol</p>	<p>2.1 Permanent Signs</p>
<p>Rhaid cynnwys un o'r isod</p>	<p>Include one of the following</p>
<p>Mae ein harwyddion parhaol yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond byddwn yn codi rhai dwyieithog wrth i ni eu hadnewyddu neu eu newid.</p>	<p>Our permanent signs are currently in English only but will be replaced, on renewal, by bilingual ones</p>
<p>2.2 Arwyddion dros dro</p>	<p>2.2 Temporary Signs</p>
<p>Byddwn yn parhau i gynnwys y Gymraeg ar arwyddion dros dro.</p>	<p>We will continue to include Welsh on temporary signs</p>

2.3 Enw Corfforaethol		2.3 Corporate Name
Mae ein brand corfforaethol yn gwbl ddwyieithog		Our corporate brand is fully bilingual
2.4 Papur Pennawd		2.4 Stationery
Mae ein papur pennawd yn gwbl ddwyieithog		Our stationery is fully bilingual
2.5 Cardiau Busnes		2.5 Business Cards
Mae'r cardiau busnes sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y Saesneg yn unig		Where business cards exist, they are in English only
Byddwn yn sicrhau bod unrhyw gardiau busnes newydd sy'n cael eu harchebu yn gwbl ddwyieithog		We will ensure that any new business cards ordered are fully bilingual
3 Gwefan a Gwasanaethau Digidol		3 Website and Digital Services
3.1 Gwefan		3.1 Website
Mae rhan fwyaf o'n gwefan yn Saesneg yn unig		Our website is primarily in English only
Mae gan wefan y Synod tudalen Gymraeg sydd yn esbonio fod yr iaith a ddefnyddir mewn eglwysi lleol yn fater i bob eglwys leol, ac yn tynnu sylw at y rhai sydd yn cynnal oedfaon yn y Gymraeg.		The website has a Welsh language page that explains that language used in local churches is a matter for each local church and draws attention to those that have Welsh language services

3.2 Gwasanaethau Digidol		3.2 Digital Services
Nid ydym yn cynnig gwasanaethau digidol ar hyn o bryd		We currently do not offer digital services
3.3 Cyfryngau Cymdeithasol		3.3 Social Media
Byddwn yn ceisio defnyddio mwy o Gymraeg yn ein gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol.		We will attempt to use more Welsh in our social media services
4 Hysbysebu a Marchnata		4 Advertising and Marketing
4.1 Hysbysebu trwy ddarlledu		4.1 Broadcast Advertising
Nid ydym yn hysbysebu trwy ddarlledu ar hyn o bryd		We currently do not use broadcast advertising
4.2 Hysbysebu yn y Wasg Gymreig		4.2 Advertising in the Welsh Press
Nid ydym yn hysbysebu yn y wasg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd		We currently do not advertise in the Welsh language press
Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymreig		We will continue to use Welsh in our advertising in publications in Wales
4.3 Hysbysebu Recriwtio		4.3 Recruitment Advertising
Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth hysbysebu swyddi.		We will continue to use Welsh in our recruitment advertising

4.4 Hysbysebu Awyr Agored (Byrddau Arddangos a Cherbydau)		4.4 Outdoor Advertising (Billboards and Vehicles)
Nid oes gennym hysbysebion awyr agored ar hyn o bryd		We currently do not have any outdoor advertisements
Byddwn yn ceisio defnyddio mwy o Gymraeg ar unrhyw hysbysebu arddangos.		We will aim use more Welsh in any outdoor advertising
4.5 Cyhoeddiadau Print		4.5 Printed Publications
Mae ein cyhoeddiadau print yn y Saesneg yn bennaf		Our printed publications are predominantly in English only
Byddwn yn ceisio defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau print.		We will aim to use more Welsh in our printed publications
4.6 Deunydd Arddangos a Marchnata		4.6 Exhibition and Marketing Materials
Mae ein deunydd arddangos a marchnata yn y Saesneg yn unig		Our exhibition and marketing materials are in English only
Byddwn yn ceisio defnyddio mwy o Gymraeg yn ein deunydd arddangos a marchnata.		We will aim use more Welsh in our exhibition and marketing materials
4.7 Negeseuon wedi eu recordio a Chyhoeddiadau Sain		4.7 Pre-recorded Messages and Audio Announcements
Mae neges peiriant ateb Swyddfa'r Synod yn cynnwys cyfarchiad Cymraeg. Nid ydym yn		The Synod Office answerphone message includes a Welsh language greeting. We currently do not make any audio announcements.

gwneud unrhyw gyhoeddiadau sain ar hyn o bryd/		
4.8 Pecynnu		4.8 Packaging
Nid oes gennym unrhyw becynnu ar hyn o bryd		We currently do not have any packaging
4.9 Priso, Derbynebau a Thocynnau		4.9 Pricing, Receipts and Ticketing
Nid oes gennym unrhyw brisio, derbynebau na thocynnau ar hyn o bryd.		We currently do not have any pricing, receipts and ticketing
5 Cyfathrebu		5 Communication
5.1 Olrhain Dewis Iaith		5.1 Tracking Language Choice
Nid ydym yn cofnodi nac yn olrhain dewis iaith ein cysylltiadau busnes ar hyn o bryd		We currently do not record or track the language choice of any business contacts
5.2 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb		5.2 Face to Face Communication
Nid ydym yn gallu sicrhau gwasanaeth Gymraeg, ond rydym yn croesawu defnydd o'r Gymraeg gan staff sy'n gallu gwneud hynny		We cannot guarantee a Welsh language service but we welcome the use of Welsh by staff able to do so
5.3 Cyfathrebu dros y Ffôn		5.3 Telephone Communication
Nid oes gennym yr adnoddau staff i ddelio â galwadau yn y Gymraeg ar hyn o bryd		We do not, at present, have the staffing resources to deal with telephone calls in Welsh

5.4 Gohebiaeth (Papur ac Electronig)		5.4 Correspondence (Paper and Electronic)
Ar hyn o bryd, yn gyffredinol, rydym yn ysgrifennu at bobl yn Saesneg		At the moment, we generally write to people in English
Rydym yn cydnabod rhyddid ein cwsmeriaid i ohebu yn y Gymraeg a byddwn yn ymateb yn unol â'u dewis iaith lle bo hynny'n ymarferol bosibl		We acknowledge people's freedom to correspond with us in Welsh and we will respond in their preferred language wherever it is practically possible
Byddwn yn rhoi ystyriaeth bositif i ddwyieithrwydd wrth anfon a derbyn gohebiaeth, yn seiliedig ar natur a phwrpas y ohebiaeth		We will give positive consideration to bilingualism when sending and receiving correspondence, based on the nature and purpose of the correspondence
5.5 Ffurflenni a Dogfennau Cyfrif		5.5 Forms and Account documents
Mae ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif yn Saesneg yn unig		Our forms and account documents are in English only
Byddwn yn ceisio defnyddio mwy o Gymraeg yn ein ffurflenni a'n dogfennau cyfrif		We will aim to use more Welsh in our forms and account documents
6 Staff a'r Gweithle		6 Staff and the Workplace
6.1 Asesu Anghenion Sgiliau Iaith wrth Recriwtio		6.1 Assessing Language Skills Requirements when Recruiting
Nid ydym yn asesu pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer unrhyw swydd yn ein sefydliad ar hyn o bryd		We currently do not assess what level of Welsh language skills are required for any roles in our organisation

Byddwn yn ystyried a chofnodi pa sgiliau iaith Gymraeg y mae eu hangen ar gyfer pob swydd newydd		We will consider and record what level of Welsh language skills are required to perform each new position in our organisation
6.2 Cofnodi a Datblygu Sgiliau Iaith ein Staff		6.2 Recording and Developing our Staff's Language Skills
Nid ydym yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg unrhyw aelod o staff		We do not keep a record of the Welsh language skills of any employees
Byddwn yn asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg pob aelod o staff newydd wrth iddynt ymuno â'n sefydliad		We will assess and record the Welsh language skills of every new employee as they join our organisation
Rydym yn cydnabod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru		We acknowledge that in Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language
Rydym yn agored i'r posibilrwydd o gynnig darpariaeth benodol ar gyfer cefnogi staff i wella eu sgiliau iaith Gymraeg trwy ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer cyrsiau Dysgu/gloywi Cymraeg a/neu amser di gyswllt i fynychu cwrs o'r fath.		We are open to the possibility of helping staff to improve their Welsh language skills by providing financial support for Welsh language training courses and/or time off to enable a staff member to participate in such a course
6.3 Cyfathrebu Mewnol		6.3 Internal Communication
Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod o staff a'n haelodau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu cydweithwyr ac eraill.		We recognise that everyone has the freedom to use the Welsh language with each other, as enshrined in the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and we expect staff to respect the linguistic preferences of their colleagues and others.

6.4 Cyhoeddiadau Mewnol		6.4 Internal Publications
Mae ein cyhoeddiadau mewnol yn y Saesneg yn bennaf		Our internal publications are largely in English only
Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau mewnol lle bynnag y mae'n rhesymol i wneud hynny		We will use more Welsh in our internal publications wherever it is reasonable to do so
6.5 Meddalwedd yn Gymraeg		6.5 Welsh language software
Byddwn yn annog ein staff i osod rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer unrhyw feddalwedd y mae ein staff yn ei ddefnyddio sydd â rhyngwyneb Cymraeg cydnabyddedig		We will encourage staff to install a Welsh language interface for any software used which has a recognised Welsh language interface
6.6 Arweiniad		6.6 Leadership
Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn ein sefydliad		We will ensure that this policy is supported at the highest level in our organisation
Rydym wedi penodi Clerc y Synod i fod yn gyfrifol am weithredu, hybu ac adolygu'r polisi hwn		We have appointed the Synod Clerk to be responsible for implementing, championing and reviewing this policy
6.7 Ymwybyddiaeth		6.7 Awareness
Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen		This policy will be conveniently available for the public to read
Bydd pob aelod o staff yn derbyn copi o'r polisi hwn ac arweiniad ar ei oblygiadau		Every member of staff will receive a copy of this policy and direction on its requirements

Bydd y polisi hwn yn ymddangos ar ein gwefan		This policy will continue to appear on our website
6.8 Adolygu		6.8 Review
Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn o leiaf pob dwy flynedd		We will assess and revise this policy every two years
7 Gwasanaethau wedi eu darparu ar ein rhan		7 Services delivered on our behalf
Byddwn yn sicrhau fod pob gwasanaeth newydd sydd wedi ei ddarparu ar ein rhan gan gontractwr neu drydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi hwn		We will ensure that every new service delivered on our behalf by a contractor or third party complies with this policy